Rhifyn 37

Melinau Gwynt Ynys Môn gan Rhys Thomas

Mae Ynys Môn yn lle gwyntog; ffaith mae pobl wedi cymryd mantais ohoni ers canrifoedd. Mae olion hen felinau gwynt yw gweld ar hyd a lled yr Ynys.

Pwrpas yr holl felinau yma oedd malu ceirch a haidd i gynhyrchu blawd. Erbyn heddiw mae melinau gwynt llawer mwy modern i'w gweld ym Môn, a phwrpas y rhain yw cynhyrchu trydan.

Mae tystiolaeth fod egni gwynt yn cael ei ddefnyddio ar Ynys Môn nol yn y 14eg Ganrif. Melinau gwynt wedi eu gwneud o bren oedd y rhai cynnar yma ac mae'r rhain wedi hen ddiflannu erbyn heddiw. Adeiladwyd nifer fawr o felinau cerrig yn ystod chwyldro amaethyddol y 18fed Ganrif. Yn wir, ar un adeg roedd 50 o felinau gwynt ar yr Ynys. Roedd mwy o haidd a cheirch yn cael eu tyfu yn Ynys Môn nag yn unman arall yn y wlad, a rhoddodd iddi'r enw "Môn Mam Cymru". Adeiladwyd yr holl felinau gwynt yma er mwyn malu'r haidd a cheirch oedd yn cael eu tyfu. Mae llawer o'r melinau cerrig traddodiadol yma dal i'w gweld ar hyd Ynys Môn, nifer ohonynt yn adfeilion bellach.

Erbyn heddiw dim ond un o'r melinau gwynt traddodiadol yma sydd yn dal i weithio a chynhyrchu blawd, sef Melin Llynnon yn Llanddeusant. Adeiladwyd Melin Llynnon yn 1775 , ac wedi gwaith adnewyddu yn yr 1980au mae Llynnon heddiw ar agor fel amgueddfa.

Hen felin wynt ger Amlwch

Melin Llynnon

Mae Melin Llynnon yn defnyddio egni'r gwynt i droi'r hwyliau. Wrth i'r hwyliau droi mae egni'r gwynt yn cael ei droi yn egni mecanyddol. Mae'r egni mecanyddol yma yn cael ei ddefnyddio i droi'r cerrig maen tu fewn i'r twr sydd yn malu'r haidd i greu blawd.

Mae egni'r gwynt yn parhau i gael ei ddefnyddio ar Ynys Môn. Yn y blynyddoedd diweddar mae melinau gwynt modern wedi cael eu hadeiladu sydd yn cynhyrchu trydan i'r grid cenedlaethol. Yn aml gelwir melin wynt sydd yn cynhyrchu trydan yn dyrbin gwynt, ac fel arfer gwelir grwpiau o'r rhain gyda'i gilydd mewn safleoedd a elwir yn ffermydd gwynt. Mae'r tyrbinau gwynt yn defnyddio egni'r gwynt i droi'r llafnau. Mae symudiad y llafnau yn troi generadur sydd yn cynhyrchu trydan.

Tyrbinau gwynt ar Ynys Môn

Tyrbinau gwynt modern gyda hen felin Mynydd Parys yn y cefndir

Ni wnaiff gwynt redeg allan wrth ei ddefnyddio, ac felly mae'r math yma o egni yn cael ei alw'n egni adnewyddol. Nid yw defnyddio egni'r gwynt yn creu llygredd chwaith, felly mae llawer o ddiddordeb wedi bod yn ddiweddar mewn cynhyrchu trydan yn y ffordd yma.

Mae yna dair fferm wynt ar Ynys Môn. Y mwyaf yw fferm wynt Llanbabo ger Llyn Alaw, sydd â 34 tyrbin gwynt. Mae'r tyrbinau gwynt yma yn 31 metr o uchder, tair gwaith uchder Melin Llynnon. Gall y fferm wynt yma gynhyrchu 20.4MW o drydan sydd yn ddigon

i ddarparu trydan i 14,000 o gartrefi. Er bod ffermydd gwynt yn ffordd lân o gynhyrchu trydan mae llawer o bobl yn eu gwrthwynebu gan ddadlau eu bod yn difetha'r tirlun. Mae eraill yn honni fod y tyrbinau yn creu sŵn sydd yn amharu ar dawelwch yr ardal. Mae'r tirlun o amgylch arfordir Ynys Môn wedi ei ddynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, gan ei fod yn un o'r tirluniau mwyaf arbennig, deniadol ac amrywiol ym Mhrydain. A yw tyrbinau gwynt yn cael effaith negyddol ar y tirlun arbennig yma?

Mae technoleg newydd nawr yn galluogi i ffermydd gwynt cael eu hadeiladu allan yn y môr.

Mae yna dyrbinau gwynt i'w gweld oddi ar arfordir Gogledd Cymru ger Llandudno â Phrestatyn. Mae codi ffermydd gwynt allan yn y môr yn lleihau y pwysau o adeiladu ffermydd gwynt mewn lleoliadau dadleuol ar y tir, ond maent yn costio llawer mwy yw hadeiladu.

© CBHC AP_2007_2009

Munud i feddwl - Beth yw eich barn chi am ffermydd gwynt?

- Rhestrwch fanteision ac anfanteision datblygiadau ffermydd gwynt.
- Beth fyddai eich barn chi pe bai fferm wynt yn cael ei adeiladu ger eich cartref chi?
- A ddylai fwy o ffermydd gwynt gael eu hadeiladu allan yn y môr? Ymchwiliwch i fewn i fanteision ac anfanteision ffermydd gwynt ar y môr.
- Wyddoch chi am unrhyw ffynonellau eraill o egni adnewyddol?

Diolch i Rhys Thomas AHNE Môn am yr erthygl yma.